Mae'r Offeryn Statudol hwn yn disodli'r un blaenorol a gyhoeddwyd o dan y rhif anghywir; fe'i dosberthir yn rhad ac am ddim i'r rhai y gwyddys iddynt dderbyn y cyntaf.

This SI replaces that previously published and which had been numbered incorrectly, and is being issued free of charge to all known recipients of the original.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 Rhif 3134 (Cy.300)

## 2003 No. 3134 (W.300)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

# Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003

# The Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi effaith i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y cynigion hynny yw:

(i) y bydd ardaloedd yng nghymuned Rhuddlan (a ddangosir â llinellau croes du yn y mapiau ffiniau A a B y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn dod yn rhan o gymuned y Rhyl; a

(ii) y bydd ardal yng nghymuned Dyserth yng nghyffiniau'r eiddo a elwir "Ffordd Pantycelyn", "Pydew Farm", "Pydew Bungalow", "Little Pydew Farm", "Plas Newydd Farm, "Bungalow", a "52 Ffordd Ffynnon" (a ddangosir â llinellau croes du ar fap ffiniau B y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn dod yn rhan o gymuned Prestatyn; a

(iii) y bydd ardal yng nghymuned Rhuddlan yng nghyffiniau'r eiddo a elwir "Four Winds Farm" (a ddangosir wedi'i arlliwio'n ddu ar fap ffiniau B y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) hefyd yn dod yn rhan o gymuned Prestatyn.

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972 gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals is that:

(i) areas of the community of Rhuddlan (shown hatched in black on boundary maps A and B referred to in Article 2 of the Order) will become part of the community of Rhyl;

(ii) an area of the community of Dyserth in the vicinity of the properties known as "Ffordd Pantycelyn", "Pydew Farm", "Pydew Bungalow", "Little Pydew Farm", "Plas Newydd Farm", "Bungalow" and "52 Ffordd Ffynnon" (shown cross hatched in black on boundary map B referred to in Article 2 of the Order) will become part of the community of Prestatyn; and

(iii) an area of the community of Rhuddlan in the vicinity of the property known as "Four Winds Farm" (shown shaded black on boundary map B referred to in Article 2 of the Order) will become part of the community of Prestatyn.

Mae printiau o'r map ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Dinbych yn Swyddfeydd y Cyngor, Rhuthun ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod wardiau De a De Ddwyrain cymuned y Rhyl a ward De Orllewin Cymuned Prestatyn, y cyfeirir atynt yng Ngorchymyn Sir Ddinbych (Trefniadau Etholiadol) 1998 ("Gorchymyn 1998"), yn cael eu hestyn fel bod eu ffiniau yn cyd-redeg â ffiniau'r cymunedau fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 1976") y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith a gweithrediad gorchmynion megis y gorchymyn hwn.

Yn rhinwedd Rheoliad 40 o Reoliadau 1976, dehonglir cyfeiriadau yng Ngorchymyn 1998 at gymunedau Rhuddlan a Dyserth fel cyfeiriadau at y cymunedau hynny fel y'u newidir gan y Gorchymyn hwn.

Prints of the boundary map are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Denbighshire County Council at Council Offices, Ruthin and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff (Local Government Modernisation Division).

Article 4 of this Order makes provision so that the South and the South East wards of the community of Rhyl, and the South West ward of the community of Prestatyn, which are referred to in the County of Denbighshire (Electoral Arrangements) Order 1998 ("the 1998 Order"), are extended so that their boundaries correspond with the community boundaries as altered by this Order.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) ("the 1976 Regulations") referred to in Article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

By virtue of Regulation 40 of the 1976 Regulations, references in the 1998 Order to the communities of Rhuddlan and Dyserth are to be construed as a reference to those communities as altered by this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3134 (Cy.300)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003

*Wedi'i wneud* *28 Tachwedd 2003*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Gan bod Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Ebrill 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**) ar adolygiad a gyflawnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar y ffiniau rhwng cymunedau Dyserth, Prestatyn, Rhuddlan a'r Rhyl yn Sir Ddinbych ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdanynt;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**b**) yn awr yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

**Enwi a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004 sef y diwrnod penodedig ("appointed day") at ddibenion y Rheoliadau, ond at y dibenion a nodir yn Rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2003.

(a) 1972 (p.70).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3134 (W.300)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003

*Made* *28th November 2003*

*Coming into force in accordance with Article 1(2)*

The Local Government Boundary Commission for Wales having submitted to the National Assembly for Wales in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**a**) a report dated April 2002 on a review carried out by Denbighshire County Council of the boundaries between the communities of Dyserth, Prestatyn, Rhuddlan and Rhyl in the County of Denbighshire together with the proposals they have formulated thereon;

and the National Assembly for Wales having decided to give effect to these proposals;

and more than six weeks having elapsed since those proposals were made;

the National Assembly for Wales, in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972, and which are now vested in the National Assembly for Wales, so far as exercisable in Wales(**b**) makes the following Order:

**Name and commencement**

**1**.-(1) This Order is called the Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003.

(2) This Order comes into force on 1 April 2004, which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purposes set out in Regulation 4(1) of the Regulations this Order comes into force on 1 December 2003.

(a) 1972 (c.70).

(b) *See* National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "map ffiniau A" ("*boundary map A*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "map ffiniau B" ("*boundary map B*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**a**); ac

ystyr "Sir Ddinbych" ("*Denbighshire*") yw Sir Ddinbych.

**Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau**

**3**.-(1) Mae'r rhannau hynny o gymuned Rhuddlan sydd yn Sir Ddinbych ac a ddangosir â llinellau croes du ar fapiau ffiniau A a B yn cael eu gwahanu oddi wrth y gymuned honno ac yn ffurfio rhan o gymuned y Rhyl.

(2) Mae'r rhan honno o gymuned Dyserth sydd yn Sir Ddinbych ac a ddangosir â llinellau du ar fap ffiniau B yn cael ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno ac yn ffurfio rhan o gymuned Prestatyn.

(3) Mae'r rhan o gymuned Rhuddlan sydd yn Sir Ddinbych ac a ddangosir wedi'i arlliwio'n ddu ar fap ffiniau B yn cael ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno ac yn ffurfio rhan o gymuned Prestatyn.

**Newidiadau i Wardiau**

**4**.-(1) Estynir ward y De o gymuned y Rhyl i gynnwys yr ardal a ddangosir â llinellau croes du ar fap ffiniau A.

(2) Estynir ward y De Ddwyrain o gymuned y Rhyl i gynnwys yr ardal a ddangosir â llinellau croes du ar fap ffiniau B

(3) Estynir ward y De Orllewin o gymuned Prestatyn i gynnwys yr ardal a ddangosir â llinellau croes du a'r ardal a ddangosir wedi'i arlliwio'n ddu ar fap B.

(a) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan amryw offerynnau statudol. Nid yw'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn.

**Interpretation**

**2.** In this Order -

"boundary map A" ("*map ffiniau A*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map A of the Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"boundary map B" ("*map ffiniau B*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map B of the Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"Denbighshire" ("*Sir Dinbych*") means the County of Denbighshire; and

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(**a**).

**Changes in Community Areas**

**3**.-(1) Those parts of the community of Rhuddlan in Denbighshire and shown hatched in black on boundary maps A and B are separated from that community and form part of the community of Rhyl.

(2) That part of the community of Dyserth in Denbighshire and shown cross hatched in black on boundary map B is separated from that community and forms part of the community of Prestatyn.

(3) That part of the community of Rhuddlan in Denbighshire and shown shaded in black on boundary map B is separated from that community and forms part of the community of Prestatyn.

**Changes to Wards**

**4**.-(1) The South ward of the community of Rhyl is expanded to include the area shown hatched in black on boundary map A.

(2) The South East ward of the community of Rhyl is expanded to include the area shown hatched in black on boundary map B.

(3) The South West ward of the community of Prestatyn is expanded to include the area shown cross-hatched in black and the area shown shaded in black on map B.

(a) S.I. 1976/246 as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Tachwedd 2003

Signed on behalf of the National Assembly for Wales


28th November 2003

*Sue Essex*

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Minister for Finance, Local Government and Public Services


# Map A Gorchymyn Sir Ddinbych
# (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003




Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru


# Map A of the Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003




This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office.© Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CartoGraphics, National Assembly for Wales


# Map B Gorchymyn Sir Ddinbych
# (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003




Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Map B of the Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003




This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office.© Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CartoGraphics, National Assembly for Wales

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3134 (Cy.300)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Dyserth a Phrestatyn) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3134 (W.300)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Denbighshire (Rhuddlan, Rhyl, Dyserth and Prestatyn) Order 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090848-1

9 780110 908489

**£2.50**

W216/12/03 ON